CAPEL SALEM, DOLGELLAU

TAFLEN MIS MAI 2023

Rhifyn 249

Annwyl ffrindiau

Braint yw cael eich cyfarch unwaith eto drwy gyfrwng y daflen fisol. Mae'r flwyddyn yn carlamu ymlaen ac mae'n anodd credu y byddwn ar drothwy'r haf ddiwedd y mis yma. Credaf fod Mai y mis tlysaf a'r harddaf o'r flwyddyn, gyda'r meysydd i gyd wedi glasu, dail a blodau wedi ymddangos ar y coed a'r caeau. Amser prysuraf o'r flwyddyn i'r garddwyr yn ein plith, plannu, chwynnu a thorri gwair. Yn wir, edrychwn ymlaen am y nosweithiau hir a chynnes ar ôl y tywydd oer, gwlyb a diflas dros fisoedd y gaeaf.

"Pan ddel Mai a'i lifrai las
Ar irddail i roi irddas
Aur a dyf ar edafedd
Ar y llwyn er mwyn a'i medd"

"Pan y gwelwch ddraenen wen
A gwallt ei phen yn gwynnu
Mae hi'n gynnes dan ei gwraidd
Cei hau dy haidd bryd hynny"

Ar y 1af o Fai, byddwn yn cael gŵyl banc, fel sy'n bodoli ers sawl blwyddyn bellach. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg mabwysiadwyd y 1af o Fai fel dydd "Gŵyl Llafur" gan y glowyr a'r chwarelwyr a byddai gorymdeithio ac areithio ledled gwlad. Eleni, bydd dydd gŵyl banc ychwanegol y dydd Llun canlynol i ddathlu coroni y brenin Siarl y trydydd ar Fai'r 6ed. Tybed mai cyd-ddigwyddiad yw iddo ddewis y mis hwn i gael ei goroni, gan gofio ar y dydd diwethaf o Fai eleni byddwn, fel Cristnogion ledled byd, yn dathlu'r Pentecost neu Sulgwyn - pan ddisgynnodd yr Ysbryd Glan ar yr Apostolion - gwyl dathlu "brenin y brenhinoedd"! Mae'r Pentecost yn un o'r cyfnodau pwysicaf yng nghalendr y Cristnogion - caiff ei ystyried fel dyddiad geni'r Eglwys Gristnogol. Mae bob amser yn disgyn ar yr wythfed Sul, neu hanner can niwrnod ar ôl Y Pasg. Fe ddaw'r gair Pentecost o Pentekoste sy'n golygu hanner cant yn yr iaith Roegaidd.

Mae llawer o bobl yn ei chael yn anodd ar hyn o bryd, gyda chostau byw yn cynyddu'n sylweddol. Mae pris ynni a bwyd, pethau hollol angenrheidiol, yn codi'n gyflymach na gradd chwyddiant, a llawer yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd. Diolch am y mudiadau banciau bwyd a'r gwirfoddolwyr sydd yn rhoi o'u hamser, yn aml iawn yn dawel a diffwdan. Mae llawer o bobl ar hyd a lled y wlad yn ddibynnol iawn ar y banciau bwyd i fwydo eu teuluoedd. Dros y misoedd diwethaf mae aelodau Salem wedi bod yn cefnogi'r banc bwyd lleol drwy gyfrannu yn y bocsys sydd yn y ddau gyntedd yn y Capel. Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth. Mae Llinos a finnau wedi bod â llond cist y car i'r banc bwyd yn y Bermo ddwywaith, a theimlwn yn ostyngedig iawn wrth dderbyn gwerthfawrogiad y staff yno. Deallaf ganddynt fod yr angen yn fwy nag erioed, a'r gofynion yn cynyddu yn gyflymach na'r nwyddau y maent yn eu derbyn.



Da oedd deall fod ein cyfeillion yn eglwys y Tabernacl wedi cynnal cwrdd eglwys a'u bod yn gefnogol i gryfhau y cysylltiadau rhwng y ddwy eglwys. Gwyddom eisoes fod croeso i aelodau Salem fynychu oedfaon yn y Tabernacl ar y Sul cyntaf neu'r tryddydd Sul o'r mis os nad oes oedfa yn Salem. At-goffwyd aelodau'r Tabernacl bod yr un croeso yn eu disgwyl hwy yn Salem ar yr ail neu'r pedwerydd Sul ym mhob mis. Gobeithio y bydd aelodau'r ddwy eglwys yn gwneud ymdrech arbennig i gefnogi'r naill a'r llall .....**DROSODD**

O dan arweiniad Cyngor Tref Dolgellau, agorwyd drysau y Llyfrgell Rydd bob dydd Iau o 10.00 tan 2.00, a bydd hyn yn parhau tan o leiaf fis Medi nesaf. Mae'n gyfle i bobl gyfarfod a chymdeithasu. Mae hyn i gyd yn rhad ac am ddim - dewch yno am baned a sgwrs. Bydd hyn yn sicrhau llwyddiant y fenter a'n gallu, gobeithio, i'w gynnal yn ystod misoedd y gaeaf nesaf hefyd. Mae angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo yn ystod y sesiynau, dim ond gwneud ambell i baned a sgwrsio hefo hwn a'r llall. Nid yw'n waith anodd ac o brofiad personol, yn rhoi cryn foddhad. Os ydych yn teimlo eich bod yn gallu rhoi o'ch amser (rhennir y cyfnod yn ddwy sesiwn, 10.00 - 12.00 neu 12.00 - 2.00) galwch mewn i'w gweld ar fore Iau, neu cysylltwch gyda Nia Wyn Evans. Os yn haws cysylltwch gyda mi, gan fy mod innau ar y pwyllgor hefyd.

Llongyfarchiadau i Meirwen Owen, Hafoty ar ddod yn nain eto, mae David Hugh a Cara wedi mabwysiadu bachgen bach – Joshua. Pob bendith a lwc i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau hefyd i Gerallt Hughes a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ddiwedd y mis yma. Dwi'n siŵr y cawn gyfle eto i ddymuno'n dda i chi cyn y diwrnod mawr!

Anfonwn ein cofion anwylaf at ein haelodau sydd dan anhwylder ar hyn o bryd neu yn gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal.

Cofion gorau atoch,

John Cadwaladr (ar ran y swyddogion)

OEDFAON MIS MAI 2023

Dydd Sul, Mai 7fed - 10.00 a.m. - Uno yn y Tabernacl - Y Parchedig Euron Hughes
Dydd Sul, Mai 14eg - 10.00 a.m. - Y Parchedig - Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus, Ynys Môn
Dydd Sul, Mai 21ain - 10.00 a.m. - Uno yn y Tabernacl - Y Parchedig Euron Hughes
Dydd Sul, Mai 28ain - 10.00 a.m. - Ein gweinidog, y Parchedig Patrick Slattery

Myfyrdod Mis Mai gan ein gweinidog, Y Parch. Patrick Slattery.

Paul Tillich

Ganwyd Paul Tillich yn 1886 ym mhentref bach Starzeddel ger Berlin. Roedd ei dad Johannes yn weinidog yn Eglwys Efengylaidd Prwsia, sef yr eglwys Lutheraidd. Roedd yn ddyn cywir a chadarn ac yn dueddol o beri arswyd i'r rhai nad oedd yn ei adnabod. Bu farw mam Paul pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Cofiai amdani fel mam gariadus ond llym. Credai Tillich i'w rieni effeithio'n drwm arno a rhwng y ddau ohonynt, gwelai yn ei gymeriad ei hun eu hoffter o athroniaeth, y celfyddydau a phethau gorau bywyd. Fel bachgen ifanc dysgodd Ladin a Groeg a hefyd rywfaint o athroniaeth gan ei dad. Hoffai astudio'r Beibl er iddo ddod i amau rhai pethau ynddo. Ni fedrai dderbyn bod stori genedigaeth Iesu'n hanesyddol cywir.

Er nad oedd ei dad yn hoffi'r tueddiadau rhyddfrydol ynddo, pan dderbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys rhoddodd arwyddair iddo a gadwodd ar hyd ei oes, sef adnod o'r Testament Newydd: "a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau." (Ioan 8:32.) Cafodd Paul Tillich yrfa brifysgol wych ac astudiodd athroniaeth, seicoleg, hanes yr Eglwys a diwinyddiaeth. Dechreuodd ar ei yrfa fel gweinidog ym Merlin, a bu yn gaplan yn y fyddin yn ystod y Rhyfel Mawr. Bu'n agos at beth o'r brwydro mwyaf ffyrnig a chafodd y profiad effaith fawr arno. Bu'n isel ei ysbryd o weld cymaint o ddifrod a lladd a chredai bod gwareiddiad Ewrop wedi dod i ben.

Ar ôl y rhyfel bu'n dysgu mewn gwahanol brifysgolion ac yn 1933 daeth yn athro athroniaeth ym Mhrifysgol Frankfurt. Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd, 'Y Penderfyniad Sanctaidd.' Ynddo ymosododd ..... **DROSODD**

ar Sosialaeth Genedlaethol, sef teitl swyddogol y mudiad Natsiaidd o dan arweiniad Adolf Hitler. Galwodd y mudiad yn baganiaeth genedlaethol ramantaidd. Pan ddaeth y Natsiaidd i rym, un o'r pethau cyntaf a wnaethant oedd cymryd ei swydd oddi arno ac ymhen misoedd fe'i perswadiwyd i ymfudo gyda'i deulu i'r Unol Daleithiau. Erbyn hyn roedd yn 47 oed, yn briod ac yn dad i ferch saith oed. Wynebai ar ddarlithio mewn coleg diwinyddol yn Efrog Newydd heb erioed ddysgu siarad Saesneg. Yn ei ddyddiau cynnar yno hoffai ei ddisgyblion gyfaredd ei lais ond caent drafferth i'w ddeall oherwydd ei acen Almaeneg gref. Cyn bo hir meistrolodd yr iaith Saesneg yn rhwydd.

Daeth i amlygrwydd byd trwy ei waith yn yr Unol Daleithiau a chyhoeddodd nifer o lyfrau. Ei waith pennaf oedd 'Systematic Theology', sydd mewn tair cyfrol ac yn waith hynod o amserol i'r oes bresennol. Un o'r gweithiau mwyaf dylanwadol ar fywyd a gwaith Tillich oedd Hamlet gan Shakespeare ac yn enwedig araith Hamlet ei hun, "I fod neu beidio." Nid marw neu gyflawni hunanladdiad ond i beidio â bod yn berson a'r cyfan a olygai hynny.

Trwy ei waith rhoddodd Tillich obaith i filoedd, yn enwedig y to ifanc. Ble bynnag yr âi, tyrrai cannoedd i wrando arno oherwydd ei diwinyddiaeth gyfoes.

Gwrthodai hen ffyrdd cynoesol o gredu. Defnyddiodd ddelweddau wedi'u codi o fyd seicoleg yn hytrach nag o'r hen fyd a gredai mewn nefoedd uwchben ac uffern o dan y ddaear. Gwelai Dduw yn llenwi bywyd person, yn hytrach nag mewn rhyw fyd y tu hwnt i'r cymylau. Y peth pwysicaf am y Duw hwn oedd ei gariad, y cariad a weithiai yn Iesu Grist, un a wadodd ei bersonoliaeth ei hun, er mwyn bod yn ffenestr i'r Duw byw. Gobeithiai y câi pob person ei gydio gan y cariad hwn. Disgrifiai Tillich grefydd fel, 'y cyflwr o gael eich cydio gan rywbeth o dragwyddol bwys." I'r Cristion yr enw ar y "rhywbeth" hwn yw 'Duw', i'r Hindŵ 'Brahma', i'r Mwslim 'Allah'. Doedd rhai ddim yn hoffi'r diffiniad hwn o grefydd ond mae llawer yn ei dderbyn gan ei fod yn cynnwys gwahanol grefyddau. Tua diwedd ei yrfa bu Tillich yn darlithio llawer ar y berthynas rhwng Cristnogaeth a chrefyddau eraill. Dymunai weld cydweithrediad rhwng y gwahanol grefyddwyr i wrthsefyll y seciwlariaeth ddi-dduw a welai yn lledu dros y byd. Ei obaith mawr oedd gweld y dydd yn dod pan fyddai pawb yn medru siarad am Dduw heb deimlo cywilydd.

Yn un o'i lyfrau eraill, 'The New Being', mae Tillich yn dadlau nad yw Cristnogaeth yn bwysig fel crefydd gan fod Cristnogaeth yn fwy na chrefydd. Trwy rym yr atgyfodiad mae Cristnogaeth yn creu bodau newydd. Nid y ddefod sy'n bwysig ond y gwaredwr. Roedd Tillich yn cydoesi gyda thri diwinydd byd enwog arall sef, Rudolf Bultmann, Karl Barth, a Reinhold Niebuhr. Mae'r pedwar yn cael eu cyfrif fel diwinyddion mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif. Yn 1963, fel arwydd o werthfawrogiad iddo, crëwyd gerddi arbennig yn Indiana. Enwyd y lle yn 'Paul Tillich Park'. Bu farw yn 1965 a chladdwyd ei lwch yno.



Wn i ddim a oedd y diweddar Barchedig John Roberts, Llanfwrog yn edmygydd o Paul Tillich, ond yn ôl ei emyn godidog "O tyred i'n gwaredu, Iesu da" (375 C. Ffydd) mae'n amlwg ei fod ef gyda'r un meddylfryd â Tillich. Rydym yn hoff iawn o ganu'r geiriau hyn ar y dôn hyfryd 'Bro Aber' ac rwy'n cydnabod bod yna briodas hyfryd rhwng y geiriau a'r dôn. Ond yr her yw inni efelychu'r geiriau yn ein bywydau. "Cyd fyw'n gytûn fel brodyr fyddo'n rhan, a'th gariad yn ein cynnal drwy ein hoes; na foed i'r arfog cry' orthrymu'r gwan, ac na fo grym i ni ond grym y groes.

Clawr cylchgrawn dylanwadol **Time**, Mawrth 16eg, 1959